# Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Llanycil 2023/24.

**Cyflwyniad**
Dibyn yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth am weithgareddau Cyngor Cymuned Llanycil yn ystod 2023/24. Mae'n cynnwys amlinelliad byr o strwythur y Cyngor, trosolwg o weithgareddau'r Cyngor dros y flwyddyn, a chrynodeb ariannol. Mae'r adroddiad yn esbonio sut mae'r Cyngor wedi cyfrannu at les yr ardal dros y flwyddyn ddiwethaf ac edrych ymlaen ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Cefndir**
Plwyf yng nghantref Penllyn yw Llanycil. Yn ddaearol mae yn cwmpasu ardal o lan Llyn Tegid i'r Arenig Fawr, a thrwy ganol Llyn Tryweryn i gyffiniau tref Y Bala. Amaethyddiaeth yw'r prif gyflogwyr yn yr ardal, gyda phoblogaeth denau a gwasgaredig a geir yn y plwyf bellach gyda dau bentref bach sef Rhyduchaf a'r Parc, a chlwstwr bychan o dai yn Llidiardau a'r Arenig o fewn ei thiriogaeth. Ar un adeg bu dwy ysgol gynradd yn y Plwyf sef Ysgol Maesywaen a gaewyd yn niwedd y chwedegau pan agorwyd ysgol newydd Bro Tryweryn yn y Frongoch ac Ysgol y Parc a gaewyd yn 2013 ar ôl ymgyrch hir i'w hachub. Gellir dweud fod trigolion Llanycil yn ddiwylliedig iawn, ac adlewyrchir hyn yn y bwrlwm cymdeithasol a geir yn y gwahanol gymdeithasau sydd yn defnyddio'r ddwy neuadd a'r tri chapel o fewn y plwyf yn wythnosol, a hynny drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Adnodd mwyaf gwerthfawr y plwyf yw Llyn Arenig sydd yn cyflenwi dŵr yfed i drigolion Penllyn a darnau o Edeyrnion.

**Cynghorwyr a Staff.**
Mae'r Cyngor yn cynnwys 9 aelod, fel a ganlyn:
Cadeirydd: Huw Charles, Gwern Dyfgri, Rhyduchaf.
Is-gadeirydd: Jean Ll. Roberts, Trefan, 11 Tai'n Rhos, Parc.
Arwel Ll. Davies, Pant y Neuadd, Parc.
Geraint Ll. Davies, Fedw Arian Uchaf, Y Bala.
Geraint W. Jones, Rhydyfen, Arenig.
Gwynedd Jones, Fferm Maesywaen, Maesywaen.
Gwynfryn Williams, Nodyn y Nant, Parc.
Jean Ll. Roberts, Trefan, 11 Tai'n Rhos, Parc.
Rhys E. Richards, Cynythog Bach, Llidiardau.

Clerc: Bethan Jones, Hafod y Bryn, Cwmtirmynach, Y Bala.
Ffon: 01678520632 E-bost: hafodbryn632@gmail.com

**Cyfarfodydd.**
Cynhelir cyfarfodydd misol y Cyngor ar yr ail nos Fawrth o'r mis, ac eithrio Ebrill ac Awst lle ni chynhelir cyfarfod. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal Neuadd y Parc a Neuadd Maesywaen am 8.00y.h. Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai. I wella ein gwasanaeth gofynion 'Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021' i ddarparu ar gyfer presenoldeb aml-leoliad mewn cyfarfodydd y Cyngor buddsoddwyd mewn gliniadur newydd ac offer pwrpasol yn 2022-23.

**Cyfrifon i ddiwedd Mawrth 2024:**

| | |
|---|---|
| Gweddill a ddygwyd ymlaen o 1/4/2023 | £3650.18 |
| Derbyniadau | +£4600.41 |
| Taliadau | -£4031.76 |
| **Gweddill 31/3/24** | **£4218.83** |

Praesept Blynyddol: £4,500
Nifer o aelodau wnaeth hawlio'r lwfans blynyddol o £150 - dim.
Archwilwyr Mewnol: Cyngor Gwynedd Archwilwyr Allanol: Archwilio Cymru.
Canlyniad yr Archwiliad Blynyddol 2022-23: Diamod.

**Prif amcanion y Cyngor**

1) Rheoli Eiddo'r Cyngor - dwy loches bws.
2) Gweinyddiaeth a Llywodraethant.
3) Rhoddion Ariannol i Fudiadau Gwirfoddol.
4) Cynrychioli ac Ymgysylltu a'r Gymuned - cynghorwyr yn cynrychioli'r Cyngor ar bwyllgorau'r Neuaddau lleol ac yn adrodd unrhyw adborth yn nol i'r Cyngor. Cynrychiolaeth mewn gweithgareddau a digwyddiadau lleol.
6) Partneriaeth a Chyd Weithio - Partneriaeth Penllyn a Chanolfan Henblas, Bala a gyda materion unigol gyda'r Cynghorau Cymuned a Thref Penllyn e.e. materion traffig.
7) Ceisiadau Cynllunio.
8) Gwella a Chefnogi ein Cymuned.

**Gweithgareddau.**

1) Cydweithio gyda'r trigolion lleol a'r cyngor sir i sicrhau fod materion lleol yn cael sylw, e.e. cyflwr y ffyrdd gwledig.
2) Gwaith trafod gyda Gwasanaethau Cefnogi Cymunedau Cyngor Gwynedd i greu Cynllun Ardal Phenllyn a Bala fel rhan o'u prosiect 'Ardal Ni 2035'.
3) Cefnogi mudiadau ac elusennau lleol drwy gyfraniadau ariannol wrth iddynt wynebu heriau costau byw. Cefnogi'r ysgolion a neuaddau lleol drwy gyfraniadau ariannol i wella eu cyfleusterau. Cyfrannwyd £1,200 eleni.
4) Cydweithio gyda Chyngor Tref Y Bala i dynnu sylw'r Asiantaeth Cefnffyrdd i bryderon y cynghorau am y goryrru yn Llanycil a chais am gyfyngiad 40 m.y.a.
5) Cynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd Partneriaeth Penllyn, Dŵr Cymru a'r Heddlu.
6) Gweithredu'r amcanion yn ein Cynllun Bioamrywiaeth drwy gyfrannu'r £50 i ysgol feithrin Garn Bach Tryweryn i brynnu coed afal i'w safle newydd.

**Cynlluniau ac amcanion ar gyfer 2023/24.**

1) Parhau i gydweithio gyda'r trigolion lleol a'r cyngor sir i sicrhau fod materion lleol yn cael sylw.
2) Cynnal a chadw'r ddwy loches bws sy'n eiddo i'r Cyngor.
3) Parhau i gefnogi mudiadau lleol drwy roddion ariannol.
4) Parhau i gydweithio gyda'r Gwasanaethau Cefnogi Cymunedau Cyngor Gwynedd i ddatblygu'r Cynllun Ardal Phenllyn a Bala fel rhan o'u prosiect 'Ardal Ni 2035'.
5) Parhau gyda'r ymgyrch i gael cyfyngiad cyflymder 40 m.y.a. i Lanycil.
6) Hyrwyddo a datblygu Cynllun Bioamrywiaeth y Cyngor drwy gyd weithio gyda'r ysgolion a mudiadau lleol. Cydweithio gyda Swyddog Bioamrywiaeth y Parc Cenedlaethol i dderbyn coed ffrwythau ar gyfer safle newydd ysgol feithrin Garn Bach Tryweryn.
7) Cynnal trafodaethau gyda swyddogion Dŵr Cymru i sicrhau datrysiad i'r trefniadau pan mae angen cau'r ffordd oherwydd gwaith cynnal a chadw yn Rhyduchaf.